# Crynodeb o Arfarniad a Chynllun Datblygu Ysgol Bro Cinmeirch

Fel ysgol rydym yn adolygu ’n gyson ble ’r ydym fel ysgol a sut y gallwn wella ’n barhaus i sicrhau bod eich plentyn yn cael yr addysg orau yn Ysgol Bro Cinmeirch. Trwy ’r broses o hunan arfarnu ac adolygu parhaus ar draws yr ysgol rydym yn adnabod ein blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwelliant.




## Ein Cryfderau

### Arweinyddiaeth

- Mae blaenoriaethau ’r ysgol wedi’ w rhannu ’n glir gyda ’n rhanddeiliaid yn ein cylchlythyr wythnosol.
- Mae pob aelod o staff yn arwain cyngor ysgol h.y. Pwyllgor Eco, Cyngor Ysgol, Lleisiau Lles ayyb ac yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn trefnu digwyddiadau o fewn yr ysgol.
- Llais y disgybl yn gryf o fewn yr ysgol, gan gynnwys ein prosesau monitro h.y. mae dysgwyr yn cael cyfleoedd i fynd ar daith o amgylch yr ysgol gan nodi cryfderau a meysydd i wella a chael digon o gyfleoedd i graffu ar lyfrau gyda staff a llywodraethwyr drwy gydol y flwyddyn.
- Cydweithio fel tîm a gweithio ’n brydlon ar y targedau a gosodwyd ar y cyd.

### Addysgu a dysgu

- Cyfleoedd eang ar draws y flwyddyn i staff, dysgwyr a ’r llywodraethwyr ddod at ei gilydd i graffu ar lyfrau, taith ysgol a chyfle i gael trafodaethau.
- Mae ffocws parhaus a chryf ar ddatblygu sgiliau Llythrennedd wedi bod drwy destunau trafod, artist y mis, patrwm iaith ayyb.

### Cwricwlwm

- Rydym wedi gwneud defnydd effeithiol o grantiau oedd ar gael e.e Edwina Trust ar gyfer adnoddau Gwyddonol, arian tuag at siediau i greu ardal tu allan CA2.
- Rydym wedi gwneud defnydd effeithiol o ’n staff eleni gan ddefnyddio ’u arbenigedd e.e athrawes CS yn dysgu Gwyddoniaeth yn yr awyr agored gyda disgyblion CA2.
- Mae staff wedi mynychu cyrsiau amrywiol ac wedi gweithio gydag ysgolion eraill er mwyn cael gwell ymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm.
- Cylchlythyrau yn sicrhau dealltwriaeth dda o ddigwyddiadau ’r ysgol ac yn rhoi cyfleoedd i drafod materion ymhellach.

### Lles, Tegwch a Chynhwysiant

- Mae bron pob un aelod o staff dysgu wedi mynychu hyfforddiant ‘Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb’ yn ystod y flwyddyn ac wedi galluogi i ni gynllunio a pharatoi adnoddau addas.
- Mae’r Cyngor Ysgol yn trefnu diwrnodau i ddathlu o fewn yr ysgol er mwyn sicrhau cydraddoldeb megis diwrnod Owain Glyndŵr, diwrnod Dangos y cerdyn coch i Hiliaeth ayyb.
- Mae disgyblion wedi dysgu defnyddio eu llais o fewn y cynghorau ac wedi gallu trefnu diwrnodau a digwyddiadau o fewn yr ysgol i helpu plant i ddysgu am eu lles a lles eraill.

## Llwyddiant Blaenorol

### Datblygu sgiliau llafaredd dysgwyr.

Creuwyd testunau trafod yn wythnosol a ’r dysgwyr wedi mwynhau cael paru fyny gydag aelodau gwahanol o fewn yr ysgol.

Manteisir ar nifer o gyfleoedd yn ystod y flwyddyn i ddathlu digwyddiadau Cymreig megis diwrnod Shwmae Sumai, Gorymdaith Gŵyl Ddewi, Eisteddfodau ’r Urdd, Dydd Miwsig Cymru a llawer mwy.

### Gwella ansawdd yr adborth a marcio.

Craffwyd ar lyfrau gyda ’n hymgynghorydd GwE, Llŷr Gilmor, llywodraethwyr, dysgwyr a ’r staff i drafod cryfderau a mannau gwella ein llyfrau.

Gweithiwyd ar gysondeb ar draws yr ysgol drwy ail greu ’r cod marcio, lliwiau marcio, sicrhau elfen gref o hunan asesu, strwythur marcio a thargedau unigol y dysgwyr.

### Datblygu ymagwedd ysgol gyfan at les. Datblygu cwricwlwm iechyd, lles a chorfforol gwerthfawr ar draws yr ysgol. Datblygu ’r strategaeth adferol drwy gydol yr ysgol fel ei bod yn ganolog i ethos cynhwysol yr ysgol.

Drwy grant ‘ period dignity ’ rydym wedi prynu mewn i wefan ‘Jigsaw ’ am flwyddyn. Mae adnoddau, gwersi a chymeriadau er mwyn hwyluso ’r gwersi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

Llawer o waith meddylgarwch a meddylfryd twf ar draws yr ysgol.

# Blaenoriaethau

## Ysgol Bro Cinmeirch

Dyma drosolwg o feysydd datblygu ysgol y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn academaidd 2024-2025 er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddarparu ' r gorau i ' n disgyblion.

## 1

Ymateb i strategaeth Gymraeg Sir Ddinbych ar gyfer hybu addysg Cymraeg ar hyd y Glannau.




- Cynyddu'r defnydd o Gymraeg tu allan i'r dosbarth. Datblygu sgiliau llafaredd dysgwyr.

## 2

Gwella hyfedredd darllen y Gymraeg trwy ' r ysgol trwy godi proffil darllen, cynyddu ymgysylltiad teuluol a gwella canlyniadau.

- Buddsoddi mewn llyfrau darllen Cymraeg priodol.
- Creu corneli darllen deniadol ac ysbrydoledig sy ' n meithrin diwylliant o ddarllen.




## 3

Gwella ymhellach y ddarpariaeth a datblygu diwylliant o ddysgu annibynnol.

- Cyfoethogi ymhellach yr ardal tu allan fel adnodd dysgu i CA2.
- Parhau i weithio ar strwythurau dosbarth a'r defnydd o '3 cyn fi' yn y dosbarth.



## 4

Gwella strwythur yr ysgol gan gofnodi presenoldeb, cofnodi'n fanwl a chymryd camau i wella prydlondeb yr ysgol.



- Sicrhau fod presenoldeb/ prydlondeb yn cael ei gofnodi yn gywir ar SIMS.
- Creu taenlen presenoldeb a chyfathrebu hefo'r rhieni yn dymhorol.